wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

# Cronfa Gwrando

Cronfa sy’n galluogi artistiaid yng Nghymru i ddatblygu’r grefft o Wrando fel rhan o flwyddyn gyntaf Degawd Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig


Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# Cynnwys


Cyflwyniad ..... 3

Y Rhaglen Gwrando ..... 5

Gwybodaeth ynglŷn â'r Gronfa Gwrando ..... 6

Beth mae'r gronfa yn ei gynnig? ..... 7

Pwy all ymgeisio? ..... 8

Meini prawf dethol ..... 8

Pa wybodaeth ydw i angen ei ddarparu? ..... 9

Beth ydw i angen ystyried yn fy nghynnig ..... 9

Y Broses Ymgeisio ..... 10

Dogfennau atodol ..... 11

Beth os oes gen i gwestiwn neu os byddwn yn hoffi derbyn cymorth? ..... 13


# Hygyrchedd

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, fformat hawdd i'w ddarllen, Braille, sain ac Arwyddeg. Ymdrechwn i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn Bolisi Recriwtio Cyfle Cyfartal a chroesawn geisiadau gan bawb yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Ni fydd eich dewis iaith yn arwain at unrhyw oedi wrth ymateb.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

# Cyflwyniad

Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru (CRhC), asiantaeth rhyngwladol Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) yn paratoi ar gyfer y cyfnod strategol nesaf. Bydd “uchelgais rhyngwladol” newydd ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru yn cael ei chyd-greu. Bydd hyn yn cael ei wneud o fewn cyd-destun:

- 7 Nod a 5 Ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol
- Datblygiad Strategaeth Corfforaethol CCC a’r Adolygiad Buddsoddi sydd yn adnabod y chwe blaenoriaeth ganlynol:

    i. **Creadigrwydd**: celf sy’n ddychmygus, yn nodweddiadol, yn rhyngwladol eigolygon, wedi’i chreu’n uchelgeisiol mewn dulliau cyfrifol a pherthnasol, acsy’n atseinio ymysg unigolion a chymunedau.

    ii. **Tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant**, er mwyn i unigolion a chymunedauallu gwneud, cyd-greu a phrofi celfyddyd ar eu telerau’u hunain.

    iii. **Y Gymraeg** yn ffynnu yn ein bywydau creadigol; gallu creu, cyfranogi aphrofi’r celfyddydau yn ein dewis iaith, ac ar yr un pryd adlewyrchu bywydyng Nghymru’n ddilys.

    iv. **Cyfiawnder hinsawdd** drwy gyfrwng creadigrwydd a gweithredu sy’ngynaliadwy yn gymdeithasol, yn amgylcheddol ac yn foesol.

    v. **Meithrin doniau** ar gyfer dyfodol gwydn, gyda llwybrau sy’n galluogi pawb iddatblygu creadigrwydd, sgiliau ac arweinyddiaeth.

    vi. **Trawsnewidiad** – cydio mewn cyfleoedd newydd a mentro, bod yn wydn acymatebol i newidiadau, ac ar yr un pryd barhau i fod yn berthnasol i bobl achymunedau.

- **Strategaeth Cyfiawnder Hinsawdd** newydd a bod yn garbon niwtral erbyn 2030. Wrth i CCC weithio tuag at ddatblygu ein strategaeth ac wedyn yr adnoddau, y cymorth a'r ffurf o fonitro sydd eu hangen ar y sector i bontio'n gywir i Gymru gynaliadwy, gofynnwn ichi ystyried effaith amgylcheddol eich gweithgaredd a'r mesurau y gallwch eu cymryd i leihau eich ôl troed carbon.

- Ein hymrwymiadau o fewn Strategaeth Rhyngwladol a chynlluniau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae defnyddio'r 5 Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gwneud inni gynllunio a meddwl yn y hir dymor ynglŷn â sut mae'r penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud heddiw yn cwrdd ag anghenion y presennol, wrth warchod anghenion y dyfodol yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

Mae sut yr ydym yn cynnwys pobl o gymunedau amrywiol yng Nghymru, sut yr ydym yn cydweithredu gyda'n partneriaid yn rhyngwladol ac yn integreiddio amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill a all gael effaith arnom neu ein heffeithio ni gyda'n hamcanion ein hunain, oll yn bwysig.

Gwneir hyn er mwyn creu Cymru sydd yn gyfrifol yn fyd-eang a'n fwy gwydn o fewn cyd-destun Cyfiawnder Hinsawdd, sydd wrth gwrs drwy ddiffiniad yn agenda rhyngwladol.

Rydym yn awyddus i atal problemau rhag digwydd neu cyfrannu at argyfwng hinsawdd ac anghyfiawnderau drwy ddefnyddio ein profiadau dysgu a'n profiadau blaenorol – a rhai pobl eraill – i'n hysbysu.

# Y Rhaglen Gwrando

Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, asiantaeth ryngwladol Cyngor Celfyddydau Cymru, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, yn nodi dechrau Degawd Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig yn 2022 drwy lansio rhaglen newydd ar gyfer artistiaid a sefydliadau celfyddydol. Nod Gwrando yw meithrin y gelfyddyd o wrando ar ieithoedd a chymunedau sydd mewn perygl a dysgu am eu hymdrechion i warchod y tir y maent yn preswylio ynddi.

Mae gwrando ar ieithoedd brodorol gyda a thrwy ieithoedd brodorol eraill yn galluogi archwilio diwylliannol, creadigol ac ieithyddol dwfn. O'r archwiliadau creadigol hyn rydym yn bwriadu adeiladu ar gydweithrediadau a chyfleoedd i'r dyfodol. Ystyrir y gronfa hon fel y cam cyntaf i fentro'n ddyfnach yn ystod y degawd i ddod. Bydd croeso arbennig i wrando ar gynigion trwy a chyda'r Gymraeg ond nid yw'n ofyniad unigryw.

Mae sgwrs agoriadol gan Mererid Hopwood, y bardd dathliedig a sylfaenydd yr Academi Heddwch yn galw arnom i wrando ar dirwedd ieithyddol y byd, ac yn arbennig ar "wrando ar y posibiliadau newydd a'r hen ddoethinebau a welir yn amrywiaeth ieithyddol y byd."

Trwy'r rhaglen hon rydym yn gobeithio dysgu mwy am y cysylltiad rhwng iaith a'r amgylchedd. Mae gwrando ar ieithoedd amrywiol y byd yr un mor bwysig a buddiol â gwerthfawrogi amrywiaeth ecolegol ein byd naturiol.

Mae Mererid Hopwood hefyd yn galw am ddeall bod mwy na'r pum synnwyr yr ydym yn eu deall mewn rhai ieithoedd a diwylliannau, a bod y synhwyrau hyn weithiau'n cydadweithio mewn ffyrdd annisgwyl. Er enghraifft, yn yr iaith Gymraeg, rydym yn clywed blas. Gwyddom hefyd y gallwn wrando ar iaith a diwylliant heb yr angen am sain. Mae'r gydnabyddiaeth gynyddol am ieithoedd arwyddion brodorol fel rhan o hawliau dynol pobl frodorol byddar ac anabl yn hollbwysig. Gall hwn fod yn faes diddorol i'w archwilio hefyd drwy'r rhaglen hon ac fel rhan o'n hymrwymiad i Faniffesto Celfyddydau Anabledd Cymru Dewch â'n Hawliau Creadigol.

# Gwybodaeth ynglŷn â'r Gronfa Gwrando

Mae'r gronfa newydd hon, yn ffurfio rhan o weithgareddau blwyddyn gyntaf rhaglen Gwrando.

Mae Gwrando wedi ei hysbrydoli gan waith artistiaid yng Nghymru ac o gwmpas y byd a'n siwrnai dysgu a hwylisir gan Celfyddydau Rhyngwladol Cymru. Fe fydd yn rhoi cyfle i artistiaid yng Nghymru wrando a dysgu gan arfer brodorol o gwmpas y byd drwy modd creadigol.

Bydd y siwrnai yn cynnwys cyfleoedd a gynlluniwyd ar y cyd gan artistiaid sy'n cymryd rhan, i wrando ar artistiaid ac arweinwyr meddwl brodorol a chymryd rhan mewn sesiynau grŵp. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i fod yn fannau agored, cefnogol i roi adborth ar feddyliau a phwyntiau dysgu, heriau, a chyfleoedd i'r dyfodol.

Yn y cyd-destun hwn, rydym yn defnyddio'r gair Gwrando fel offeryn ar gyfer gwrando, ac nid yn y synnwyr llythrennol o glywed. Mae gwrando, yn hytrach na chlywed, yn ein galluogi i herio ein dealltwriaeth a'n dysgu. Rydym yn cydnabod bod synhwyrau a chyfryngau eraill sydd yn ein galluogi i fynegi a chanfod ac ymateb yn greadigol i'r hyn yr ydym yn ei brofi. Y tu hwnt i sŵn iaith, mae ei chyd-destun, ei diwylliant a'i hanes – a gellir gwrando ar y cwbl drwy sawl synnwyr. Fel y noda Mererid Hopwood ar ddiwedd ei sgwrs agoriadol: "y tu hwnt i wrando gydag ieithoedd, eu siarad nhw, eu darllen nhw a'u hysgrifennu nhw, beth am sylwi ar sut ydym yn cyfryngu gyda nhw".

Fel rhan o ymrwymiad CCC i drawsnewid ac ymgorffori dysgu, bydd CRhC yn dysgu ochr yn ochr â'r artistiaid, a chyda'n gilydd, byddwn yn edrych ar offer a phrotocolau a osodwyd gan bartneriaid brodorol sydd wedi'u cynllunio i greu mannau diogel a chyfartal. Rydym yn disgwyl ailfeddwl ynglŷn â'n hanes ein hunain gyda diwylliannau brodorol o gwmpas y byd, a hynny drwy ymgysylltu mewn sgyrsiau gydag arweinwyr meddyliau o gymunedau brodorol, er enghraifft, mewn lleoedd fel Canada ac India a lle mae Cymru wedi bod yn rhan o goloneiddio'r Ymerodraeth Brydeinig o'r gwledydd hyn.

Bydd y rhai hynny ar y siwrnai yn cyfrannu tuag at lunio maniffesto o ymrwymiadau tuag at weithio ochr yn ochr a gwrando ar ieithoedd a diwylliannau brodorol trwy'r byd. Gall hyn arwain at newid mewn ymarfer artistig a buddsoddiad yn y dyfodol.

**Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau: Dydd Llun, 19 Rhagfyr 2022 am 5pm**

# Beth mae'r gronfa yn ei gynnig?

Mae'r gronfa wedi cael ei chynllunio i roi lle ar gyfer gwrando a rhannu'r dysgu. Mae gennym ni ddiddordeb ym mhwy yr ydych chi yn dymuno gwrando arno a pham, a sut ydych chi'n cynnig rhannu'r dysgu hwn.

Cyfanswm y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y gronfa yw £30,000.

Lefel uchaf cefnogaeth yw £7,500 ar gyfer pob dyfarniad.

Ar gyfer y rhai hynny yng Nghymru neu'n rhyngwladol nad ydyn nhw'n derbyn cyflog am waith sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn, gall ffioedd sy'n gysylltiedig â'u hymrwymiad gael eu cynnwys o fewn y gyllideb.

Mae'r gronfa yn cynnwys:

- Grant o hyd at £7,500
- Bydd y grant yn cefnogi:
    - › hyd at bedwar diwrnod o'ch amser i gyfranogi i weithgareddau dysgu a rhannu a hwylusir gan CRhC megis gweithdai a sesiynau dal fyny ar-lein gydag artistiaid eraill a'r tîm fel mannau diogel i rannu syniadau a dysgu
    - › eich amser i ymgymryd â'ch gweithgaredd arfaethedig, deunyddiau cysylltiedig a chostau teithio
    - › rhannu eich ymateb creadigol tuag at eich siwrnai. Bydd rhan o'r broses yn cynnwys trafodaethau ynghylch sut orau i wneud hyn.
- Darperir yr holl deithio lleol, prydau bwyd a lluniaeth ar gyfer cyfarfodydd grŵp a drefnwyd gyda CRhC mewn person fel rhan o'r rhaglen, yn ogystal â'r grant.

**Rydym yn disgwyl i'r prosiectau cefnodir i ddechrau ym mis Chwefror 2023 a gorffen ym mis Hydref 2023.**

## Pwy all ymgeisio?

Mae'r gronfa Gwrando yn agored i sefydliadau'r celfyddydau ac i weithwyr proffesiynol creadigol unigol sydd yn gweithio yng Nghymru.

Caiff dyddiadau ar gyfer gweithdai i ymgeiswyr eu rhannu trwy ein cyfryngau cymdeithasol.

[Gweler nodiadau cymorth ynglŷn â gwybodaeth fanwl am feini prawf cymhwysedd a gwybodaeth banc sydd ei angen.]

## Meini prawf dethol

Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu drwy ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

1. Yr ymrwymiad at ethos/nodau cyffredinol y rhaglen
2. I ba radd mae cais yr ymgeisydd yn adlewyrchu diben y gronfa
3. Ansawdd yr ymarfer creadigol a'r dystiolaeth o hanes blaenorol
4. Y persbectif a ddeuir drwy'r cynnig drwy brofiad byw neu ymholiad diffuant
5. Argaeledd i ymrwymo amser iddo a hyfywedd y cynnig o fewn yr amser a'r adnoddau a ddyrennir
6. Effaith amgylcheddol eich gweithgaredd a theithio (os yn berthnasol)

Yn ychwanegol at y meini prawf dethol sylfaenol hyn, bydd y detholwyr yn ystyried yr cyfraniad gall y dyfarniad wneud i ddatblygiad creadigol yr ymgeisydd a'u cyfraniad posibl tuag at lunio maniffesto o ymrwymiadau i barhau'r siwrnai o weithio ochr yn ochr ag ieithoedd a diwylliannau brodorol.

## Pa wybodaeth ydw i angen ei ddarparu?

Cynnig mewn ymateb i'r cyfle a'r meini prawf dethol sy'n dweud wrthym am y canlynol:

- pam mae'r cyfle a gynigir gan gronfa Gwrando o ddiddordeb i chi a'ch rhesymau dros ddymuno cymryd rhan
- eich dull arfaethedig ar gyfer y cyfle, gyda braslun o'ch llinell amser / amserlen. A oes iaith neu gymuned frodorol benodol yr ydych chi'n dymuno ymgysylltu â hi a sut y byddwch chi'n gwneud hyn? Sut y byddwch chi'n sicrhau y byddwch chi'n ddiwylliannol sensitif, gan osgoi meddiannu diwylliannol neu fod yn alldynnol?
- beth ydych chi'n gobeithio ei gyflawni neu'i ddysgu o'r siwrnai hon, pam mae'n bwysig i'ch ymarfer a sut ydych chi'n meddwl y gallwch chi rannu'r profiad a'r hyn a ddysgir?
- trosolwg o'ch ymarfer a'ch gyrfa hyd yma (darparwch ddolen os gwelwch yn dda at eich CV ac enghreifftiau o'ch gwaith diweddar) a'ch uchelgeisiau rhyngwladol. Dylech chi gynnwys unrhyw brofiad yr ydych chi wedi'i gael wrth weithio gyda chymunedau ieithoedd brodorol a/neu ar brosiectau cydweithredol gydag artistiaid eraill oedd yn creu mannau diogel i gysylltu â gwrando, i archwilio a rhannu dysgu o amgylch themâu penodol.
- unrhyw wybodaeth berthnasol ynglŷn â'r iaith, y gymuned, yr artist neu'r weithgaredd yr ydych yn bwriadu ymgysylltu â nhw.
- cyllideb i amlinellu sut y byddech chi'n defnyddio'r grant. Cyflwynwch hwn mewn tabl syml yn eich cyflwyniad os gwelwch yn dda.

## Beth ydw i angen ystyried yn fy nghynnig

Byddem yn eich annog chi i ystyried ac ymdrin â'r canlynol os yw'n berthnasol:

- effaith amgylcheddol eich gweithgaredd a'r teithio (os yw'n berthnasol) a sut y bydd hyn yn arwain y penderfyniadau ynglŷn â datblygu'r gweithgaredd a'r teithio
- scrhau bod cyfranwyr yn cael eu talu yn deg
- y rhesymeg i'r gweithgaredd fod mewn person, yn ddigidol neu'n hybrid.

# Y Broses Ymgeisio

1. Byddwch chi angen defnyddio ein porth ar-lein i ymgeisio. Os nad ydych chi wedi gwneud hynny eisoes, byddwch chi angen cofrestru er mwyn cael mynediad i'r porth. Ceir cyfarwyddiadau ar sut i wneud hyn yma. Os ydych chi'n methu â chael mynediad at y ffurflen ar-lein neu os ydych chi angen rhagor o gymorth, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda drwy fynd i info@wai.org.uk

2. Cwblhewch ffurflen gais Gwrando o'n porth ar-lein. Mae'r ffurflen gais yn cynnwys yr adrannau canlynol: Cysylltu â Chi, Cynnig y Prosiect, Ffurf y Gelfyddyd, Mathau o Weithgaredd, Iaith, Lleoliad, Cydraddoldebau, Dogfennaeth Atodol.

3. Yn yr adran Cynnig y Prosiect, rydym yn gofyn am grynodeb byr o'ch prosiect. Gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon mewn unrhyw gyhoeddusrwydd yr ydym yn ei gynhyrchu ynglŷn â'ch prosiect [hyd at 480 o lythrennau].

4. Yn yr ail ran, byddwn yn gofyn i chi ddweud wrthym ni yn fanwl am eich gweithgaredd Uchafswm y nodau 3,000. Cewch uwchlwytho dogfen ychwanegol ar ddiwedd y ffurflen gais, os oes angen, i ateb pob pwynt. Gall y ddogfen ychwanegol fod hyd at 3 ochr o A4, fel ffeil unigol (Word neu pdf) ac ni ddylai'r testun fod yn llai na 12 pwynt ac ni ddylai'r ffeil fod yn fwy na 250MB.

5. Ar ôl inni dderbyn eich cais, byddwn yn anfon cydnabyddiaeth atoch.

6. Os yw eich cais yn gymwys, bydd yn symud ymlaen i gael ei asesu. Bydd panel o aelodau detholedig yn gyfrifol am ddethol.

7. Os yw eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn anfon ffurflen Derbyn Dyfarniad atoch chi. Mae penderfyniadau'r panel yn derfynol. Os nad ydych chi wedi bod yn llwyddiannus, byddwn yn ysgrifennu atoch yn egluro pam ac yn cynnig cyfle am adborth.

8. Unwaith yr ydych chi wedi arwyddo a dychwelyd eich ffurflen Derbyn Dyfarniad, a phan ydym wedi gwirio eich manylion, byddwn yn rhyddhau 90% o'r dyfarniad a byddwn yn talu'r 10% olaf ar ddiwedd eich prosiect.

Y dyddiad cau ar gyfer y gronfa hon yw 5pm ar 19 Rhagfyr 2022.

Bydd gohebiaeth ynglŷn â'r penderfyniadau yn cael ei hafnon atoch ganol mis Chwefror 2023.

## Dogfennau atodol

Bydd angen rhai dogfennau penodol arnom i gefnogi eich cais:

1. Llythyr neu neges e-bost byr gan eich partner rhyngwladol sy’n nodi eu cefnogaeth i’ch prosiect a’u hymrwymiad i weithio gyda chi. Os ydynt yn darparu cymorth ariannol neu mewn nwyddau i’r prosiect, mae angen cadarnhau hynny yma.

2. Dogfen barhad sy’n sôn wrthym am eich prosiect, os bydd angen gofod ychwanegol arnoch, i gwmpasu’r pwyntiau o dan yr adran ‘Cynnig y Prosiect’.

3. Gallwch hefyd uwchlwytho eich CV fel dogfen ategol.

Gellir lanlwytho pob dogfen ychwanegol fel rhan o’r broses ymgeisio ar-lein.

## Cymhwysedd

- Mae’n rhaid i ymgeiswyr fod wedi’u lleoli yng Nghymru a dylen nhw allu ymgeisio yn enw cyfreithiol yr unigolyn sy’n ymgeisio.

- Meddu ar gyfrif banc yn eich enw cyfreithiol. Gallwch chi ddarganfod beth ydych chi angen ei gyflwyno yma.

- Ni fyddwn yn derbyn cynigion gan ymgeiswyr sydd mewn addysg ffurfiol llawn amser ar hyn o bryd, gan gynnwys astudiaeth ôl-radd.

## Yr hyn na allwn ni ei gefnogi

- Gweithgaredd lle nad oes cynllun wrth gefn pe na fyddai teithio corfforol yn bosibl ar y dyddiadau a gynlluniwyd
- Prosiectau sy'n canolbwyntio yn bennaf ar Gymru, gydag elfen o artist rhyngwladol digidol neu gyfranogiad gan gwmni (ar gyfer y prosiectau hyn, cyfeiriwch os gwelwch yn dda at Creu)
- Astudiaeth neu hyfforddiant ffurfiol
- Cyfranogi neu fynychu digwyddiadau cystadleuol
- Gweithgaredd sydd eisoes wedi digwydd
- Y costau sy'n gysylltiedig â chwarantin a phrofi am Covid, un ai yn y DU neu mewn gwlad arall. Mae'r rhain yn cynnwys:
    - costau sy'n gysylltiedig ag hunanynysu cyn ac ar ôl teithio (yn cynnwys unrhyw golli incwm)
    - costau sy'n gysylltiedig â chwarantin wrth gyrraedd eich cyrchfan
    - costau sy'n gysylltiedig â chwarantin ar ôl dychwelyd i Gymru
    - costau am unrhyw ddirwyon am dorri rheolau'r cwarantin
    - costau na ellir talu amdanyn nhw gan gostau yswiriant teithio a phroffesiynol a achosir gan Covid

# Beth os oes gen i gwestiwn neu os byddwn yn hoffi derbyn cymorth?

**Cysylltwch â ni:**

Ffôn: +44 29 2044 1300

Ebost: info@wai.org.uk

www.twitter.com/waicymruwales

www.facebook.com/walesartsinternational

www.instagram.com/waicymruwales

Mae gennym ni gyllideb ddewisol i ymdrin ag unrhyw ofynion mynediad penodol er mwyn sicrhau bod y cyfle mor hyblyg ac mor gynhwysol ag sy'n bosibl. Byddai'r costau hyn yn ychwanegol at gyfanswm y grant.

Yn ogystal, byddwn yn cynnig sesiynau cymorth y gellir eu harchebu a fydd yn cael eu hysbysebu drwy ein platfformau cyfryngau cymdeithasol a'r dudalen newyddion a chyfleoedd sydd ar ein gwefan.